**Y PWYLLGOR CYNORTHWYO A DATBLYGU AELODAU**

**6 Mai 2020**

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd P Kidney, Dr R Plummer, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

(Cyfarfod Rhithwir: 12.10pm – 12.45pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgeliadau**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019 i'w cadarnhau a'u hawdurdodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau ac awdurdodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019.

**4. Materion yn Codi**
a) <u>Fframwaith ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol (Cofnod 4a)</u>
Nodwyd nad oedd y Cadeirydd na'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd wedi gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Rhwydwaith Cynorthwyo Aelodau lle'r oedd cwestiwn i gael ei godi ynghylch pwy oedd yn cynnal Adolygiadau Datblygiad Personol mewn Awdurdodau eraill a sut roedd yr adborth yn cael ei gasglu.

**NODWYD.**

**5. Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau**
Atgoffwyd yr Aelodau fod y ddogfen Meini Prawf a oedd yn atodedig i'r adroddiad wedi cael ei hystyried yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, a'i bod yn cynnwys y gwaith a wnaed eisoes gan yr Awdurdod ac yn nodi'r hyn yr oedd angen ei gyflawni cyn y gellid cyflwyno cais am y Siarter Uwch.

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd sylw'r Aelodau at golofn olaf y tabl a oedd yn nodi'r gwaith ychwanegol yr oedd angen ei wneud a dywedodd fod hyn, ar y cyfan, mewn llaw. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r Aelodau at faen prawf B2 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod mwyafrif yr Aelodau yn cynnal Adolygiadau Datblygiad

Personol (PDRs) yn flynyddol. Dywedodd mai dim ond nifer fach oedd wedi cael eu cynnal hyd yma eleni ac anogodd yr Aelodau i drefnu'r rhain cyn gynted â phosibl. Roedd angen cwblhau'r Cynlluniau Cymorth Datblygiad Personol ar ôl y PDRs cyn y gellid paratoi cynllun hyfforddi ac y gellir dangos bod anghenion yr Aelodau yn cael eu diwallu. Ychwanegodd fod swyddogion yn ddigon parod i drefnu cyfarfodydd neu i helpu gyda chwblhau'r gwaith papur a bod y dyddiad cau ar gyfer cwblhau wedi'i ymestyn tan ddiwedd mis Mai.

Nodwyd hefyd y byddai rhywfaint o destun ychwanegol yn cael ei ychwanegu at faen prawf C2 yn manylu ar yr hyblygrwydd yr oedd yr Awdurdod wedi'i ddangos trwy gynnal cyfarfodydd rhithwir mewn ymateb i'r cyfyngiadau presennol oherwydd Covid-19. Roedd un Aelod yn gobeithio y byddai adolygiad ystyrlon o amseriad a'r dull o gynnal cyfarfodydd yr Awdurdod yn cael ei gynnal maes o law. Cytunodd Aelodau eraill ei bod bellach yn amser da i adolygu'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cynnal ei fusnes i annog presenoldeb o bell. Gallai hyn fod o fudd i ôl troed carbon yr Awdurdod a galluogi unigolion i gyfuno cyfrifoldebau gweithio neu ofalu â mynychu cyfarfodydd. Dywedodd swyddogion, unwaith y bydd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn peidio â bod yn effeithiol ym mis Mai 2021, nad oedd hawl gan yr Awdurdod i fod â phresenoldeb o bell mewn cyfarfodydd o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai presenoldeb o'r fath yn cael ei ganiatáu o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd ar ei daith drwy Senedd Cymru ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD** nodi'r ddogfen meini prawf a bod y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau a amlinellir ynddi.